

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

**DYDDIAD:** 28 Gorffennaf 2022

**LLEOLIAD:** Siambr y Cyngor, Penmorfa

**TEITL:** Blaenraglen Waith Ddrafft 2022/2023

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor

### Y RHESWM PAM FOD

**CRAFFU WEDI GOFYN AM** Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i  
**Y WYBODAETH HON:** diweddarau ymhob cyfarfod

### CEFNDIR:

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwyllo gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol. Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny. Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau. Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbrysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymhell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol

- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisiau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

## **Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

### **Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

### **Dewis pynciau**

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

## **ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddarau'r Blaenraglen Waith bresennol.

<b>Enw Cyswllt:</b>	Dwynwen Jones
<b>Dynodiad:</b>	Swyddog Trosolwg a Chraffu
<b>Dyddiad yr Adroddiad:</b>	4 Gorffennaf 2022
<b>Acronymau:</b>	BW- Blaenraglen Waith FWP- Forward Work Programme

Pwyllgor	Eitem(disgrifiad/teitl)	Siaradwyr Gwadd	Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion
<b><i>Cymunedau Iachach</i></b>			
28 Gorffennaf 2022	ADRODDIAD RHEOLI PERFFORMIAD Y GWASANAETH ADOLYGU ANNIBYNNOL CHWARTER 3 2021 – 2022  Rhaglen Cymorth Tai 2022-2026  Trwyddedu - Ffioedd		
27 Hydref 2022			
16 Chwefror 2023 9.30am	Paratoi'r cyllideb		
13 Ebrill 2023			
Eitemau i'r dyfodol	Diweddariad ar Gwasanaethau Dementia – Hafan Deg, Awel Deg and Chartrefi Preswyl  Diweddariad ar Faethu – yn dilyn adroddiad 6.10.21  Diweddariad ar Gofal cartref – yn dilyn adroddiad 6.10.21		

--	--	--	--